



## Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso i chi i'r cyflwyniad ar Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch. Rydych eisoes wedi astudio'n llwyddiannus am gymhwyster Bagloriaeth Cymru/Tystysgrif Her Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol Pedwar. Mae'r cwrs Uwch yn canolbwyntio ar ddatblygu ac asesu'r un sgiliau ac mae ei strwythur yn debyg i'r cwrs yng Nghyfnod Allweddol Pedwar. Fodd bynnag, mae'n cynnig mwy o gyfleoedd i weithio'n annibynnol ac yn rhoi mwy o sylw i'ch gyrfa neu eich cyflogaeth yn y dyfodol. Byddwch yn astudio'r cwrs Uwch ym Mlynedd 12 ac 13.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn rhoi'r cyfle i chi feithrin eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned rydych yn byw ynddi ac ymwybyddiaeth o faterion, digwyddiadau a phersbectifau byd-eang.

### Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob dysgwr:

- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Dyma'r linc i fanyleb CBAC

<https://www.cbac.co.uk/media/sadd3qjq/welsh-baccalaureate-specification-advanced-cymraeg-branded.pdf>

### Yn ystod y cwrs yma fe fyddwch yn datblygu saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd sef

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feimiadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

## Gwaith Cychwynnol

Mae'r ffilm hon gan Cymwysterau Cymru yn disgrifio'r cwrs ac yn egluro beth yw'r Dystysgrif Her Sgiliau a sut mae'n cyfrannu at gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

<https://www.youtube.com/watch?v=E1wjO-791vk>

Mae CBAC hefyd wedi llunio poster syml i egluro beth yw'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch.

<https://www.cbac.co.uk/media/wzzolks0/poster-tystysgrif-her-sgiliau-uwch.pdf>

Ceir llawlyfr defnyddiol i fyfyrwyr gan CBAC sy'n disgrifio'r cwrs. Byddai hwn yn llawlyfr defnyddiol i'w ddefnyddio trwy gydol eich cwrs.

<https://www.cbac.co.uk/media/p4gni5de/tystysgrif-her-sgiliau-uwch-llawlyfr-y-myfyriwr.pdf>

## Tasgau i chi baratoi i astudio

### Tasg 1

Ymchwiliwch i'r materion a'r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â phob un o'r heriau y byddwch chi'n eu hastudio.

- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang – yn yr her hon, byddwch chi'n rhoi sylw manwl i bwnc byd-eang ac yn ystyried sut ddylai'r byd geisio ei ddatrys neu ymateb iddo. I baratoi, rhwch gynnig ar ymchwilio i rai o'r pynciau isod. Yn achos pob un, ymchwiliwch i ganfod beth yw'r pwnc neu'r broblem, beth yw'r safbwyntiau gwahanol ynghylch y pwnc hwnnw, a sut y gallem ni geisio datrys hynny.

Prinder dŵr

Mynediad at ofal iechyd

Cydraddoldeb rhwng y rhywiau

- Her Menter a Chyflogadwyedd – fel rhan o'r her hon, byddwch chi'n gweithio fel aelod o dîm i ddatblygu syniad gwreiddiol am gynnyrch neu wasanaeth. Mae cyfres gyfan o wersi ac adnoddau sy'n gysylltiedig â chychwyn busnes ar gael <https://natwest.mymoneysense.com/teachers/resources-16-18s/topic-3-enterprise-starting-a-business/?cid=2>
- Her Gymunedol – fel rhan o'r her hon, bydd yn ofynnol i chi gynllunio a threfnu gweithgaredd cymunedol a fydd yn fuddiol i bobl eraill. I baratoi at hyn, dylech chi: Ymchwilio i rywffaint o elusennau lleol. Beth yw'r gwaith maent yn ei wneud a sut maent yn helpu pobl? Beth yw buddion gwirfoddoli? Defnyddiwch y wefan hon i wneud rhywfaint o ymchwilio. <https://wcva.cymru/volunteering/>
- Prosiect Unigol – ym Mlwyddyn 13, byddwch chi'n cael cyfle i ymchwilio i bwnc o'ch dewis chi, a llunio prosiect ymchwilio, tebyg i draethawd Prifysgol.

Mae FutureLearn yn cynnig cwrs ar-lein am ddim i helpu i baratoi at y prosiect hwn:

<https://www.futurelearn.com/courses/welshbacc>

Mae gan Brifysgol Caerdydd wefan ddefnyddiol sy'n canolbwyntio ar sgiliau ymchwilio:

<https://www.welshbacchistory.co.uk/>

### Tasg 2

Ystyriwch eich cryfderau a'ch gwendidau presennol yn y sgiliau sy'n cael eu hasesu fel rhan o gwrs yr Her Sgiliau Uwch. Nodwyd y 7 sgil uchod:

Mae llawer o brofion sgiliau ar gael ar-lein sy'n eich helpu chi i amlygu eich cryfderau a'ch gwendidau yn y sgiliau hyn. Beth am roi cynnig ar rai o'r profion hyn?

Mae 'Enterprise Catalyst' yn brawf/archwiliad sgiliau sy'n canolbwyntio ar sgiliau menter a busnes. Rhowch gynnig armynt <https://cymru.enterprisecatalyst.co.uk/>

Mae prawf o'r enw 'Mind tools' ar gael <https://www.mindtools.com/pages/article/get-started.htm>

### Tasg 3

Beth allech chi ei wneud i wella eich sgiliau? Rhowch gynnig ar yr adnodd datblygu sgiliau hwn i ystyried sut gallech chi wella eich sgiliau. Mae hwn yn adnodd cynllunio manwl sy'n eich annog chi i ystyried pa sgiliau y bydd arnoch chi eu hangen yn y dyfodol.

---

## Gwaith Cychwynnol

### 'TED Talks' Defnyddiol

Meddwl yn greadigol gan Matt Goldman

[https://www.ted.com/talks/matt\\_goldman\\_the\\_search\\_for\\_aha\\_moments](https://www.ted.com/talks/matt_goldman_the_search_for_aha_moments)

Cynghorion i wella eich sgiliau meddwl yn feiriadol

[https://www.ted.com/talks/samantha\\_agoos\\_5\\_tips\\_to\\_improve\\_your\\_critical\\_thinking](https://www.ted.com/talks/samantha_agoos_5_tips_to_improve_your_critical_thinking)

Sgiliau arwain

[https://www.ted.com/talks/roselinde\\_torres\\_what\\_it\\_takes\\_to\\_be\\_a\\_great\\_leader](https://www.ted.com/talks/roselinde_torres_what_it_takes_to_be_a_great_leader)

### Cyfryngau Cymdeithasol Defnyddiol

 [@EAS\\_Skills.](#)

Cyfrif Twitter y GCA ynghylch y Dystysgrif Her Sgiliau

 [@WEMovement.](#)

Grŵp gweithredu cymdeithasol.

 [@BigIdeasWales.](#)

Sefydliad sy'n cynorthwyo i ddatblygu sgiliau Menter

